Sut i hawlio eich gostyngiad MyFarmWorks:

1. Mewngofnodwch i'ch cyfrif Cofnodion Fferm Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP) Cliciwch ar y ddolen i MyFarmWorks
2. Unwaith y byddwch yn cyrraedd MyFarmWorks, bydd angen i chi naill ai fewngofnodi i gyfrif sydd eisoes yn bodoli neu greu un newydd.
3. Drwy fewngofnodi'n llwyddiannus i MyFarmWorks drwy Gofnodion Fferm WLBP, bydd y system yn gwybod eich bod yn aelod o WLBP.
4. Unwaith y byddwch yn dewis tanysgrifiad MyFarmWorks, bydd cwpon gostyngiad yn cael ei ychwanegu'n awtomatig i'r ddesg dalu, cyhyd â'ch bod yn dal yn aelod.

SYLWER

- Mae'r gostyngiad o 10% ar gael i aelodau WLBP yn unig
- Mae'n hanfodol eich bod yn agor ac yn tanysgrifio i MyFarmWorks mewn porwr gwe drwy Gofnodion Fferm WLBP i sicrhau'r gostyngiad o 10%

Sut i allforio ffeiliau o Gofnodion Fferm MyFarmWorks:

I'ch helpu i osod eich anifeiliaid a'ch triniaethau cyfredol yn MyFarmWorks, gallwch lawrlwytho ffeiliau allforio CSV o adran Allforio tudalen Adroddiadau Fferm ar Gofnodion Fferm WLBP.

Mae dau fath o ffeil y gallwch eu hallforio i MyFarmWorks:

Anifeiliaid Ar y Daliad
Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr anifeiliaid sydd ar ddaliad y fferm ar hyn o bryd, er mwyn i chi allu eu hallforio mewn fformat sy'n addas i'w mewnforio i MyFarmWorks.

Triniaethau
Mae'r adroddiad hwn yn dangos triniaethau milfeddygol, fel y gallwch eu hallforio mewn fformat sy'n addas i'w mewnforio i MyFarmWorks.

Ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â MyFarmWorks, cysylltwch â'u tîm cymorth:

support@shearwell.co.uk

01643 841814

Lawrlwythwch ffeiliau CSV o'r ddwy adran yma a'u cadw'n lleol ar eich dyfais

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi i **MyFarmWorks**, byddwch wedyn yn gallu mewnforio'r data:

Mewnforio Anifeiliaid ar y Daliad:

Setup → Import Animals → File → Dewiswch y ffeil a allforiwyd o'r Cofnodion Fferm

Mewnforio Triniaethau:

Record → Treat Livestock → Import Treatments → Dewiswch y ffeil a allforiwyd o'r Cofnodion Fferm

Cysylltwch â ni: healthplan@wlbp.co.uk 01970 636 688